TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 13 Awst 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> "Hoffwn ofyn i chi lenwi'r wybodaeth angenrheidiol ar y ddogfen sydd ynghlwm."

**Ar ôl adolygu eich cwestiwn, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Mewn ymateb i'ch cais blaenorol am yr un wybodaeth hon dyddiedig 03 Rhagfyr 2020, fe wnaethom ddweud nad yw Trafnidiaeth Cymru yn darparu gwasanaethau Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw, er ein bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, mae Gwasanaethau Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw yng Nghaerdydd, Prestatyn, Dinbych, Blaenau Gwent, Pen Llŷn, Sir y Fflint, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro a Chonwy. Dim ond y contractau meddalwedd sydd gan Trafnidiaeth Cymru, ac o gofio'r trefniant hwn, nid oes gan Trafnidiaeth Cymru'r data angenrheidiol i lenwi'r ffurflen sy'n cyd-fynd â'ch cais.

Mae costau a dyddiadau anfonebau'r meddalwedd fel a ganlyn:

| Dyddiad | Swm yn arian y trafodiad |
|---|---|
| 12/10/2020 | 20,000.00 |
| 29/09/2020 | 14,000.00 |
| 09/07/2020 | 56,000.00 |
| 11/06/2020 | 376.90 |
| 24/03/2021 | £110,376.90 |
| | **£200,753.80** |

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".